Un Llais Cymru
One Voice Wales

# Cynghorau Cymuned & Thref
# Canllawiau Digidol

## Rheoli Technoleg Gwybodaeth Cynghorau

Mawrth 2025

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cynllunio ar gyfer Cefnogi a Chynnal a Chadw TG ........ **Error! Bookmark not defined.**

Camau Mewnol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Rheoli Rhestri Cynnwys: ........ 3

Datblygu Polisïau: ........ 4

Hyfforddiant: ........ 4

Archwiliadau Rheolaidd: ........ 4

Gwasanaethau Allanol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Contractau Cefnogi TG: ........ 4

Gwasanaethau Cynnal a Chadw: ........ 4

Datrysiadau Diogeledd: ........ 4

Copïo ac Atgeisio Data: ........ 4

Dewisiadau ar gyfer Defnyddio Cyflenwyr ........ **Error! Bookmark not defined.**

1 Darparwyr Gwasanaethau Masnachol Lleol neu Ranbarthol ........ 5

2 Rhannu Gwasanaethau mewn Clystyrau Lleol o Gynghorau ........ 5

3. Cefnogaeth gan Brif Gynghorau ........ 5

Elfennau Cost ........ **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ........ **Error! Bookmark not defined.**

Hanes y Fersiwn ........ 7

# Cyflwyniad

Yn oes ddigidol heddiw, mae sefydliadau o bob lliw a llun, gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, yn dibynnu'n drwm ar offer TG megis cyfrifiaduron, argraffwyr, ffonau, a thabledi i wneud eu gwaith yn effeithlon. Mae gofalu am y peiriannau hyn a'u cynnal a chadw yn hollbwysig er mwyn sicrhau eu parhad, dibynadwyedd, a pherfformiad. Mae'n hanfodol fod Cynghorau'n ymddiddori yn y maes hwn i osgoi pethau sy'n tarfu ar eu gwaith, diogelu data, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae trefniadau cefnogi cywir yn helpu sicrhau bod eich holl offer cyfrifiadurol a meddalwedd yn gweithio'n effeithlon a gall helpu atal materion cyn iddynt ddod yn broblemau mawr. Trwy gael cynllun cefnogi a chynnal a chadw cadarn, rydych yn sicrhau bod eich systemau TG yn parhau'n ddibynadwy a diogel. Mae prif elfennau cefnogaeth yn cynnwys ymchwilio problemau, darparu cymorth technegol, a chynnig hyfforddiant i staff. Mae cynnal a chadw yn cynnwys diweddariadau rheolaidd, copïo, a systemau monitro i gael gafael ar unrhyw broblemau yn gynnar.

# Cynllunio ar gyfer Cefnogi a Chynnal a Chadw TG

Mae cynllunio ar gyfer cefnogi a chynnal a chadw TG yn cynnwys sawl cam allweddol. Bydd rhai o'r camau hyn yn fewnol i'r Cyngor – i'w cymryd gan y clerc neu staff eraill. Mae'n well fod rhai camau eraill yn cael eu cymryd gan gyflenwr allanol fel rhan o gontract cefnogaeth barhaus. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) yn amlinellu'r gweithgareddau y bydd y cyflenwr yn eu cyflawni a'r safonau a mesuriadau y byddant yn cydymffurfio â nhw.

## Camau Mewnol

### Rheoli Rhestri Cynnwys:

Dylech gadw rhestr o'r holl Offer TG. Dylai hyn gynnwys

- Manylion am yr offer, gan gynnwys dyddiadau prynu, gwybodaeth am y warant, a manylebau
- Manylion am ble mae'r Offer'n cael ei gadw ac os yw'n cael ei briodoli i unrhyw aelod staff neu gynghorydd penodol
- Bydd Cynghorau hefyd eisiau ychwanegu peiriannau at eu cofrestr asedau a chadw cofnod o werth gweddilliol unrhyw offer sy'n cael ei ystyried yn ased cyfalaf

### Datblygu Polisïau:

Dylech sefydlu polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer defnyddio, cynnal a chadw a diogeledd Offer TG gan staff a chynghorwyr. Dylai hyn gynnwys

- Diweddariadau meddalwedd rheolaidd
- Cyfarwyddiadau copïo data, gan gynnwys gweithdrefnau a pha mor aml mae angen gwneud neu wirio copïau
- Rheolyddion Mynediad Addas megis cyfrineiriau i atal Offer rhag cael ei gamddefnyddio
- Canllawiau ar ddefnyddio offer o ddydd i ddydd megis gosod meddalwedd a defnydd a ganiateir ar gyfer materion personol

### Hyfforddiant:

Dylech ofalu fod staff wedi cael hyfforddiant digonol ar ddefnyddio offer yn iawn, ymchwilio problemau ac adnabod bygythiadau posib i ddiogeledd.

### Archwiliadau Rheolaidd:

Trefnwch adolygiadau mewnol rheolaidd i wirio iechyd a pherfformiad Offer TG er mwyn dod o hyd i broblemau yn gynnar. Gallai hynny gynnwys

- Peiriannau yn gweithio'n araf neu'n gwrthod ymateb yn aml
- Sgriniau neu ategolion megis allweddellau wedi cracio neu wedi'u difrodi
- Cyrraedd terfynau storio

## Gwasanaethau Allanol

Er mwyn atgyfnerthu ymdrechion mewnol, dylai Cynghorau ystyried contractio gyda chwmnïau gwasanaethau TG ar gyfer rhai gwasanaethau. Bydd hyd a lled y gwasanaethau hyn yn amrywio yn ôl maint y cyngor

### Contractau Cefnogi TG:

Dylech weithio gyda darparwyr gwasanaethau TG i gael cefnogaeth barhaus, gan gynnwys gwasanaethau desg gymorth, cymorth o bell, ac ymweliadau ar gyfer materion hollbwysig.

### Gwasanaethau Cynnal a Chadw:

Dylech gontractio gwasanaethau cynnal a chadw ar gyfer atgyweirio offer wedi torri, ac uwchraddiadau.

### Datrysiadau Diogeledd:

Copïo ac Atgeisio Data:

Defnyddiwch wasanaethau trydydd parti ar gyfer copïo ac atgeisio data yn ddiogel

### Dewisiadau ar gyfer Defnyddio Cyflenwyr

## 1 Darparwyr Gwasanaethau Masnachol Lleol neu Ranbarthol

Trosolwg

Gall darparwyr gwasanaethau masnachol gynnig ystod eang o wasanaethau TG, ac yn aml mae ganddynt lefel uchel o arbenigedd a'r gallu i gadw cysylltiad gyda'r technolegau diweddaraf.

Dylid dewis cyflenwyr trwy gyhoeddi dogfen dendro glir y gallant ymateb iddi. Bydd hynny'n eich galluogi i gymharu prisiau a gwasanaethau i sicrhau bod y cyngor yn cael y gwerth gorau am arian.

Dros ac yn Erbyn

Gallai'r dewis hwn gynnwys gwasanaethau o ansawdd uchel a gallu manteisio ar y technolegau diweddaraf. Fodd bynnag, gall hefyd olygu costau uwch a heriau posib wrth sicrhau bod y darparydd yn deall anghenion penodol y cyngor.

## 2 Rhannu Gwasanaethau mewn Clystyrau Lleol o Gynghorau

Trosolwg

Gallai rhannu gwasanaethau mewn clystyrau lleol o Gynghorau gynnig y manteision o weithio gyda darparwyr gwasanaethau masnachol ond byddai hefyd yn cynnig y potensial o wneud arbedion ariannol trwy rannu adnoddau a phrosesau caffael.

Dros ac yn Erbyn

Gallai'r dewis hwn gynnig arbedion ariannol a'r cyfle i gydweithio a rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, bydd hefyd yn cynnwys heriau wrth gydlynu rhwng Cynghorau gwahanol.

## 3. Cefnogaeth gan Brif Gynghorau

Trosolwg

Mae gan bob prif gyngor yng Nghymru adrannau TG sy'n cynnwys pobl, prosesau ac offerynnau ar gyfer darparu cefnogaeth TG. Maent hefyd yn unedau lleol i'r Cynghorau yn eu hardaloedd a bydd rhai o'u haelodau hefyd yn aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref. Oherwydd hynny gallai fod yn bosib trafod ymestyn rhai o'u gwasanaethau i Gynghorau lleol. Ceir enghraifft o drefniant o'r fath yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

Dros ac yn Erbyn

Gallai'r dewis hwn gynnig gwasanaethau sy'n darparu'n fwy penodol ar gyfer anghenion lleol ac sy'n fwy ymatebol. Byddai awdurdodau unedol yn disgwyl i Gynghorau Cymuned a Thref gydymffurfio â safonau sylfaenol o ran offer a

systemau a ddefnyddir er mwyn ei gwneud yn bosib iddynt ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol.

## Elfennau Cost

Gall cost cymorth a chynnal a chadw TG amrywio yn ôl nifer o ffactorau. Awgrymir y dylai Cynghorau ystyried yr holl elfennau a gwneud dyraniadau addas yn eu cyllidebau blynyddol i gefnogi eu hanghenion parhaus.

- Costau Gosod Cychwynnol: Treuliau untro ar gyfer sefydlu seilwaith TG, gan gynnwys prynu, gosod, a chyflunio caledwedd.
- Ffïoedd Cefnogaeth Barhaus: Costau ailadroddol ar gyfer contractau cefnogi TG, y gellir eu bilio'n fisol neu'n flynyddol.
- Costau Cynnal a Chadw: Costau gwasanaethau cynnal a chadw achlysurol neu atgyweirio offer sydd wedi torri.
- Datrysiadau Diogeledd: Buddsoddi mewn camau diogeledd, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd, gwasanaethau monitro, ac archwiliadau diogeledd.
- Hyfforddiant a Datblygu: Dylech gyllidebu ar gyfer sesiynau a gweithdai hyfforddiant staff i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am arferion gorau a bygythiadau datblygol.
- Cronfa Wrth Gefn: Neilltuwch arian ar gyfer materion TG annisgwyl neu argyfwng y mae'n rhaid ymateb iddynt yn syth.

## Casgliad

Ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru, mae mynd i'r afael â chefnogi a chynnal a chadw TG nid yn unig yn rheidrwydd technegol ond yn anghenraid strategol. Trwy gymryd camau rhagweithiol a gweithio gydag adnoddau mewnol ac allanol, gall Cynghorau ofalu fod eu seilwaith TG yn parhau'n gadarn, diogel, ac effeithlon, a'i fod yn y pendraw yn cefnogi eu cenhadaeth i wasanaethu eu cymunedau yn effeithiol.

## Hanes y Fersiwn

| | Dyddiad | Cyhoeddwr | Rheswm | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 13/03/25 | Justin Horrell | Fersiwn Wreiddiol | 13/03/26 |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**